# System Chwilio am Geisiadau Cynllunio 

## Cwestiynau a ofynnir yn aml

**Beth yw system Chwilio am Geisiadau Cynllunio?**
System sydd wedi cael ei chreu gan NEC Software Solutions UK Ltd yw'r system chwilio am geisiadau cynllunio. Gallwch ei defnyddio ar ein gwefan i chwilio, gweld a gwneud sylwadau ar y ceisiadau cynllunio rydym yn eu derbyn.

**Pa mor aml mae'r wybodaeth yn cael ei diweddaru?**
Mae'r wybodaeth yn fyw, hynny yw, mae wedi ei chysylltu'n uniongyrchol â'n system fewnol ac felly mae'n darparu gwybodaeth amser real.

**Ers pryd mae hanes ceisiadau cynllunio yn cael eu cadw?**
Mae'r system yn cadw gwybodaeth am geisiadau cynllunio ers Hydref 1998. I gael gwybodaeth am geisiadau cynllunio cyn y dyddiad hwn, cysylltwch â ni.

**Os wyf yn meddwl fod unrhyw wybodaeth yn anghywir, beth ddylwn i ei wneud?**
Os ydych chi'n meddwl fod yr wybodaeth yn anghywir, cysylltwch â ni yn syth gydag e-bost cynllunioplanning@conwy.gov.uk. Byddwn yn gwneud ymchwil i'r mater a chywiro unrhyw wybodaeth sy'n anghywir.

**A yw'n bosibl i mi ddefnyddio'r System Chwilio ar gyfer pridiannau tir?**
Nac ydy, peidiwch â dibynnu ar y system chwilio ar gyfer pridiannau tir. Nid yw'n gronfa ddata gyflawn o'r holl wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei gadw ac nid yw'n rhan o'n system ffurfiol ar gyfer gadael i bobl wybod am benderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio.

Dylech barhau i ddefnyddio chwiliadau traddodiadol ar gyfer pridiannau tir. Cysylltwch ag adain Pridiannau Tir Lleol y Cyngor am fwy o wybodaeth trwy yrru e-bost at pridiannautirlleol@conwy.gov.uk

**What sort of documents can I view?**
Mae dogfennau yn ymwneud â Cheisiadau Cynllunio sydd wedi'u derbyn ers 15 Gorffennaf 2013 ar gael ar-lein. Mae hyn yn cynnwys ffurflenni cais, yr holl gynlluniau, gwybodaeth gefnogol, adroddiadau, rhybudd penderfyniad, ymatebion ymgynghoriadau statudol a thrydydd parti.

Bydd dogfennau yn ymwneud â Cheisiadau Cynllunio rhwng Hydref 1998 a 15 Gorffennaf 2013 ar gael ar-lein mewn amser, wrth i'r gwaith sganio gael ei gwblhau. Edrychwch am y dogfennau hyn ar-lein ac os nad oes modd eu gweld yna cysylltwch â ni drwy anfon e-bost at cynllunioplanning@conwy.gov.uk fel y gallwn drefnu i chi gael gweld y dogfennau.

**Pa borydd gwe a pha gydraniad sydd orau gyda System Chwilio am Geisiadau Cynllunio?**
System chwilio rhyngrwyd Microsoft, fersiwn 5.5 neu uwch yw'r gorau gyda'r system Chwilio am Geisiadau Cynllunio. Rydym yn argymell cydraniad sgrîn 1024 x 768, er, bydd y system yn gweithio gyda chydraniadau is.

**Gwybodaeth gyffredinol, hawlfraint ac ymwadiadau**
Er bod y Cyngor yn cymryd gofal i sicrhau fod yr wybodaeth a ddarperir ar y safle hwn yn gywir, ni all y Cyngor dderbyn unrhyw gyfrifoldeb na bod yn atebol petaech yn dibynnu ar yr wybodaeth a ddarperir a darganfod yn y pendraw ei fod yn anghywir.

Mae cynlluniau, lluniadau a deunyddiau sy'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor yn cael eu diogelu gan y Ddeddf Hawlfraint (adran 47, 1988).

At eich defnydd eich hun yn unig y dylech chi ddefnyddio'r system chwilio am geisiadau cynllunio, neu fel rhan o'r broses ymgynghori ynglŷn â cheisiadau cynllunio.

Os ydych chi eisiau gwneud copïau am unrhyw reswm arall, gofynnwch i ni yn gyntaf.

## Sut i gysylltu â ni

**Ffôn**: 01492 575471 / 575479 / 575251 / 575121
**E-bost**: cynllunioplanning@conwy.gov.uk
**Gwefan**: https://www.conwy.gov.uk/poryddcynllunio

This document is also available in English.



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL